IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 29 RHAGFYR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hudson a/ac Mackie |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - STK HOUSE LTD, WHITCHURCH ROAD

Cafodd y cais hwn ei ohirio am gyfnod o wythnos er mwyn i'r partïon allu cysylltu â'i gilydd ac er mwyn rhoi ystyriaeth i'r amodau arfaethedig y gofynnir amdanynt.

3 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE – FINTANS, STATION ROAD, LLANISIEN

Ymgeisydd: Ian Fowler, Rheolwr Gweithredol Fintans

Y Cais

Cais am Drwydded Safle wedi'i dderbyn gan Spiro Michael Gropetis ar gyfer Fintans, 11 Station, Llanisien, Caerdydd, CF14 5LS.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) O safbwynt y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

- Cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle.

(2) Oni bai y nodir fel arall gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

- Dydd Llun i Ddydd Sul 09:00 i 21:00

(3) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

- Cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle – dydd Llun i ddydd Sul 09:00 tan 21:00

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru; yn bennaf

1. Bydd y drwydded safle yn ddilys gyhyd ag y bo prif ddefnydd yr eiddo fel tŷ bwyta/safle pryd ar glud.
2. Caiff alcohol ond ei werthu pan brynir pryd o fwyd hefyd.

3. Ni fydd hawl gan gwsmeriaid i adael yr eiddo gyda chynhwysyddion alcohol wedi'u hagor.

4. Caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod i safon a gytunir gyda Heddlu De Cymru.
5. Bydd rhaid ei chynnal a'i chadw a'i gweithredu ar bob adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd y system yn cadw golwg ar bob ardal lle mae gan y cyhoedd fynediad ato (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa cyhoeddus. Caiff delweddau eu cadw am leiafswm o 31 diwrnod.
6. Caiff y delweddau eu darparu i gyflogai'r Heddlu neu swyddog awdurdodedig o adran Drwyddedu Cyngor Caerdydd ar ffurf hawdd ei chwarae a hynny'n syth ar gais pan fo'r eiddo ar agor ac ar adegau eraill cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

7. Bydd hyfforddi staff digonol i hwyluso'r uchod.

8. Bydd byrddau a chadeiriau wedi'u gosod ar o leiaf 50% o'r ardal drwyddedadwy ar gyfer bwyta prydau.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd:</u>

Cyflwynodd Mr Fowler y cais. Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod hwn yn un o dri bwyty Fintains yng Nghaerdydd. Lleolir y lleill ym Mharc Fictoria ac yn Yr Eglwys Newydd. Ni chyflwynwyd unrhyw gais i gyflenwi alcohol ar y safle ac oddi arno ar gyfer y bwytai eraill.

Y syniad yw gwneud cangen Llanisien y brif gangen; ar hyn o bryd mae seddi ar gyfer 30 o bobl, ond mae hynny'n debygol o gynyddu i 34. Gellir ond prynu alcohol gyda bwyd a chaiff hynny ei gyfyngu i foteli gwin, prosecco a chwrw crefft; ni fydd unrhyw un ohonynt yn rhad. Cedwir yr alcohol allan o afael plant y tu ôl i'r cownter ac ni chaiff ei arddangos.

Derbynnir bod Ysgol Uwchradd Llanisien wrth ymyl, fodd bynnag, dim ond disgyblion 6ed Dosbarth sydd â chaniatâd i adael yr ysgol yn ystod amser cinio, a bydd y polisi Her 25 oed ar waith.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y cysylltwyd â Thad Michael yn yr Eglwys. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau a bydd mwy o finiau'n cael eu darparu gan Fintans

Wrth ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd Mr Fowler mai dim ond yn ystod oriau ysgol y mae gan ddisgyblion 6ed dosbarth ganiatâd i adael yr ysgol. Mae system TCC ar waith ac os bydd unrhyw broblemau, gellir dangos y fideo TCC i'r Pennaeth. Rhoddwyd gwybod i Aelodau nad yw'r bwyty yn yr Eglwys Newydd yn bell o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a bod gan ddisgyblion o'r ysgol honno ganiatâd i adael yn ystod amser cinio ac ni chafwyd unrhyw broblemau.

Rhoddodd Mr Fowler wybod eu bod wedi canfasio yn yr ardal i gychwyn a nododd trigolion eu bod eisiau siop Pysgod a Sglodion, nad yw ar agor ar ddydd Sul.

Cytunodd Mr Fowler i ddiwygio'r cais ymhellach fel na fyddai'n caniatáu i'r eiddo fod ar agor ar ddydd Sul yn unol â'r amodau a osodwyd gan y Pwyllgor Cynllunio.

Y perchennog fydd deiliad y drwydded a bydd ar y safle. Bydd Mr Fowler yn symud ei swyddfa uwchben y siop. Rhoddodd Mr Fowler wybod y byddai ar y safle o 7.00 yn y bore.

O ran sbwriel, cesglir sbwriel cyn ac ar ôl cau. Byddai hynny'n cynnwys tiroedd yr eglwys. Byddai canran o'r tâl am fagiau yn mynd tuag at y cynllun codi sbwriel.

Mynegwyd pryder gan Aelodau o ran sŵn. Rhoddodd Mr Fowler wybod bod y siop ond ar gael tan 9.00 pm a bod y Church Inn ar agor yn hwyrach. Mae Co-op ac Ystafelloedd Te Cedar hefyd â thrwydded tan 9.00 pm.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

4 : COFRESTRU LOTERI CYMDEITHAS FACH

PENDERFYNWYD: Y dylid diddymu'r cofrestriadau Loteri Cymdeithas Fach a ganlyn gan nad oeddynt wedi talu'r ffi flynyddol:

- Band Pres Dinas Caerdydd (Melingriffith)
- Cronfa Elusen Pendragon
- Gŵyl Adrodd Straeon 'Beyond the Border'

5 : CEISIADAU TRWYDDED GAMBLO

PENDERFYNWYD: Y dylid diddymu'r Drwydded ar gyfer Peiriant Gemau gan na thalwyd y ffi flynyddol:

- Clwb Ceidwadol Glan-yr-afon

Daeth y cyfarfod i ben am 10.35 am